Adnodd 12b

| Datganiad | Esboniad |
|---|---|
| **Nid oes gan unrhyw un hawl i gyffwrdd â chi mewn ffordd rywiol heb eich cydsyniad** | Gallai hyn gynnwys cyffwrdd rhan o'ch corff, eich cusanu heb eich caniatâd, tynnu ar eich dillad, dangos lluniau neu fideos o natur rywiol i chi. |
| **Nid yw ildio yn gyfystyr â chydsynio** | Mae rhesymau pam y gallai person ildio i weithgaredd rhywiol yn cynnwys ofn. |
| **Eich cyfrifoldeb chi yw hi bob amser i fod yn siŵr bod eich partner yn fodlon cyn unrhyw weithgaredd rhywiol** | Byddwch yn siŵr fod eich partner yn fodlon cyn unrhyw weithgaredd rhywiol. Nid wedyn yw'r amser i ddarganfod a oedd eich partner am gael unrhyw, neu'r un, lefel o ryngweithio rhywiol. Fel arall byddwch yn troi eich cariad posibl yn ddioddefwr i chi. |
| **Peidiwch byth â gwneud tybiaethau ynglŷn â bwriadau eich partner** | Peidiwch ag ymddwyn heb gydsyniad neu anwybyddu negeseuon clir. Nid yw'r ffordd y mae rhywun yn edrych arnoch chi, y ffordd mae rhywun wedi gwisgo, os ydynt yn chwerthin ar eich jôcs, os ydynt yn ymateb drwy eich cusanu, er enghraifft yn gyfystyr â chydsyniad geiriol. |
| **Na yw na** | Os yw eich partner rhywiol yn dweud hynny, credwch hynny. |
| **Nid yw dim ateb yn golygu ie** | Os na fydd rhywun yn dweud "na", yn sicr nid yw'n golygu "ie". Os bydd y naill (neu'r ddau) ohonoch yn methu neu'n gwrthod siarad am ryw a chanlyniadau posibl ar gyfer perthynas, yna mae'n llawer rhy fuan i fod yn rhywiol gyda'ch gilydd. |
| **Mae cael rhyw gyda rhywun sy'n methu cydsynio yn drais rhywiol** | Mae cael rhyw gyda rhywun sy'n feddw, o dan ddylanwad cyffuriau, yn anymwybodol neu fel arall yn methu cydsynio yn drais rhywiol. |
| **Mae cyffwrdd rhywiol heb gydsyniad yn ymosodiad rhywiol** | Mae cyffwrdd rhywun yn rhywiol pan fyddant yn feddw, o dan ddylanwad cyffuriau, yn anymwybodol, o dan oed neu fel arall yn methu cydsynio yn ymosodiad rhywiol. Mae hyn yn cynnwys cyffwrdd y dioddefwr gydag unrhyw ran o gorff y troseddwr, neu unrhyw beth arall a thrwy unrhyw beth fel dillad. |
| **Gall rhywun newid ei feddwl ar unrhyw adeg.** | Er enghraifft, os byddant yn dweud "stop" neu "na" neu "mae hyn yn brifo" yna mae'n rhaid i chi STOPIO. Nid oes "man di-droi'n ôl". |